# CHURCH ROAD : YR EGLWYS NEWYDD



## GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2006

# cynnwys


## 1. CYFLWYNIAD.........................................

......... 1.1 Cefndir
......... 1.2 Gwerthusiadau
......... 1.3 Adolygiad o'r Ffiniau
......... 1.4 Y Cyd-destun Polisi

## 2. YR ARWYDDOCÂD HANESYDDOL .........

......... 2.1 Cefndir
......... 2.2 Diddordeb Hanesyddol Ardal Church Road
......... 2.3 Diddordeb Pensaernïol Arbennig yr Ardal

## 3. ASESIAD O GYMERIAD YR ARDAL.........

......... 3.1 Lle o Safon Nodedig
......... 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirweddol
......... 3.3 Hierarchaeth Parthau Cyhoeddus a Phreifat
......... 3.4 Deunyddiau Anghyffredin neu o Ansawdd Uchel yn y Treflun
......... 3.5 Manylion Pensaernïol o Safon Uchel
......... 3.6 Tirweddu Caled a Meddal o Safon Uchel

## 4. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU .............................

......... 4.1 Y Cefndir
.........4.2 Gwella'r Ardal Gadwraeth

## 5. ARGYMHELLION.....................................

.........5.1 Ymgynghoriad

## ATODIAD 1..............................................

Canllawiau drafft i'r rhai sy'n bwriadu gwneud gwaith datblygu o fewn yr ardal

## ATODIAD 2..............................................

Canllawiau Drafft ar gyfer Cyngor Tirwedd a Choed

## ATODIAD 3..............................................


Geirfa

## DIOLCHIADAU..........................................

## FFYNONELLAU CEFNDIR A LLYFRAU CYFEIRIOL

# Map yn dangos ffiniau Ardal Gadwraeth Arfaethedig Church Road



## 1.1 Cefndir

Mae ardaloedd cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Gwneir penderfyniad i ddynodi ardal gadwraeth gan Awdurdod Cynllunio Lleol ar ôl asesu cymeriad yr ardal. Mae hyn yn aml yn cwmpasu mwy na'r adeiladau eu hunain. Gall gosodiad y ffyrdd, yr olygfa stryd, coed a mannau gwyrdd oll ychwanegu at ansawdd yr ardal. Mae'r dynodiad yn rhoi amddiffyniad arbennig i gymeriad yr ardal ac i gyflawni hyn mae gan y Cyngor reolaethau ychwanegol o ran dymchwel adeiladau, mân ddatblygiadau a diogelu coed.

## 1.2 Gwerthusiadau

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i adolygu ardaloedd cadwraeth a gweithio gyda'r bobl leol i ddatblygu polisïau a chynlluniau a fydd yn helpu i ddiogelu cymeriad yr ardaloedd hynny. I reoli'r broses, paratowyd Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Strategaeth yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer Dinas Caerdydd a'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth asesu'r ardaloedd cadwraeth presennol a newydd. Yn Ionawr 2006, penderfynodd Cyngor Caerdydd baratoi gwerthusiad o ardal Church Road, yr Eglwys Newydd. Bu canfyddiadau'r gwerthusiad yn destun ymgynghori yn lleol, ac fe'u cyflwynir yma ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella'r ardal.

## 1.3 Y Ffiniau

Nodwyd nifer o nodweddion allweddol i gynorthwyo gyda'r gwerthusiad o'r ardal. Maent yn dilyn cyngor y llywodraeth ac fe'u nodir yn Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth Caerdydd 1997, fel a ganlyn:

- Lle o Safon Nodedig
- Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirweddol
- Hierarchaeth Parthau Cyhoeddus a Phreifat
- Deunyddiau Anghyffredin neu o Ansawdd Uchel yn y Treflun
- Manylion Pensaernïol o Safon Uchel
- Tirweddu Caled a Meddal o Safon Uchel

Paratowyd dadansoddiad byr o'r ardal gan y Cyngor, gan gyfeirio at waith Gweithgor Treftadaeth yr Eglwys Newydd.

Mae'r gwerthusiad yn cwmpasu craidd hanesyddol yr Eglwys Newydd a'r ffyrdd sy'n arwain tua'r gogledd i'r adeiladau hanesyddol gan gynnwys Llyfrgell ac Ysbyty'r Eglwys Newydd. Er bod olion gorffennol gwledig a diwydiannol yr Eglwys Newydd yn bresennol ledled yr ardal, nid oes unrhyw glwstwr na grŵp lle gellir cyflawni'r meini prawf a fabwysiadwyd ar gyfer y dynodiad ardal gadwraeth.

Mewn cyferbyniad, mae Church Road a'r strydoedd a ddangosir ar gynlluniau Arolwg Ordnans 1901 a 1920 yn arddangos cymeriad arbennig a nodweddiadol ac yn cynrychioli rhai o'r enghreifftiau gorau o ymlediad Caerdydd yn ystod rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif. Mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio felly ar y strydoedd a nodir ar y cynllun sy'n dangos ardal o dai wedi'u lleoli o fewn plotiau eang ac amrywiaeth eang o arddulliau a deunyddiau adeiladu gwahanol. Er bod maint

y plotiau yn Alfreda Road yn lleihau a bod tai pâr yn mynd yn fwy cyffredin yma, mae'r plotiau yn dal i fod wedi'u diffinio'n eglur o fewn waliau a cholofnau giât brics. Mae'r tai sydd ar The Parade yn troi o rif 18 ymlaen, ac mae tŵr urddasol yn diffinio'r gornel ac yn arwain at grŵp deniadol arall o adeiladau yn Westbourne Crescent. Yma, ceir nifer o dai diweddarach ac unigryw iawn, gyda gerddi helaeth. Mae grŵp tebyg, ond mwy ynysig, wedi ei leoli tua'r gogledd ac mae'n cynnwys Ty Rushbrook.

Tu hwnt i'r ardal hon, i'r gogledd a'r de, mae rhwysg yr arddull adeiladu'n lleihau a daw grwpiau clos o dai pâr a thai rhes i'r amlwg. Mae mwy o ychwanegiadau a datblygiadau mewnlenwi diweddarach i'w gweld hefyd.

Pennwyd ffiniau'r ardal gadwraeth arfaethedig i gynnwys y tai cynnar hyn, a'r ddau ganolbwynt hanesyddol a symbolaidd: Eglwys y Santes Fair a'r gyffordd â Park Road yn y dwyrain, a Gorsaf Ystum Taf yn y gorllewin.

Mae gwerthusiad llawn o'r ardal gadwraeth ddrafft yn dilyn. Mae'n nodi cymeriad yr ardal a'r cyfleoedd ar gyfer gwelliannau a chanllawiau.

## 1.4 Y Cyd-destun Polisi

Cefnogir y gwerthusiad hwn gan bolisïau cyfatebol o fewn y Cynllun Lleol a fabwysiadwyd a'r Cynllun Datblygu Unedol a gyflwynwyd. Byddai statws y gwerthusiad yn cynyddu o'i fabwysiadu ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, a byddai ganddo fwy o ddylanwad wrth i gynigion am ddatblygiadau gael eu hasesu a'u penderfynu. Mae tair rhan i'r gwerthusiad:

- Asesiad o gymeriad yr ardal gadwraeth.
- Fframwaith ar gyfer amddiffyn a gwella'r ardal gadwraeth.
- Canllawiau ar gyfer cyflawni hyn.

# 2 arwyddocâd hanesyddol church road

## 2.1 Y Cefndir

Am ganrifoedd lawer, yr oedd yr Eglwys Newydd yn ardal wledig o ffermydd gwasgaredig. Yr oedd yn ymestyn o Lanisien yn y gogledd-ddwyrain i ardal Birchgrove yn y de, ac o Great Heath yn y de-ddwyrain i'r afon Taf yn y gorllewin. Yng nghyffiniau'r Church Road bresennol yr oedd calon ganoloesol yr hen Eglwys Newydd. Codwyd yr adeilad eglwysig cyntaf ar safle Hen Eglwys y Santes Fair yn y 12fed Ganrif, ac yn y 13eg ganrif datblygwyd yr ardal gan Gilbert de Clare, Arglwydd Morgannwg, ar gyfer un o'i faenordai demên. Hyd at y 18fed ganrif, mae'n debyg nad oedd poblogaeth yr ardal yn fwy na 300 o bobl, a hwythau'n byw mewn ffermydd a bythynnod. Yr oedd y tenantiaid yn rhydd i bori eu hanifeiliaid ar Gomin yr Eglwys Newydd. Yr oedd sawl gefail gof yn y tafarndai megis The Plough a The Three Elms.



Erbyn dechrau'r 19eg ganrif, yr oedd datblygiad yr Eglwys Newydd yn ddibynnol i raddau helaeth ar y ffordd tyrpeg a adeiladwyd yn 1767 ar hyd Dyffryn yr Afon Taf o Gaerdydd i Ferthyr Tudful a Chamlas Morgannwg, a gwblhawyd yn 1798 rhwng Caerdydd a Merthyr hefyd. Yn hanner cyntaf y 19eg ganrif, gwelwyd gwaith adeiladu newydd sylweddol ar hyd y ffordd tyrpeg trwy'r Eglwys Newydd. Dyna sut y datblygodd canol pentref yr Eglwys Newydd a welir heddiw, gyda rhesi o dai rhes, bythynnod, ffermdai, siopau a chapeli. Cysylltir y canol pentref hwn â chraidd canoloesol yr Eglwys Newydd gan yr Hen Ffordd Eglwys sy'n troi i'r dwyrain o dafarn The Plough.



## 2.2 Diddordeb Hanesyddol Arbennig Ardal Church Road

Yr oedd dau ffactor yn arwain datblygiad ardal Church Road Heol Don ar ddiwedd y 19eg ganrif. Agorwyd gorsaf Rheilffordd Bro Taf ar ddiwedd Heol Don yn y 1840au, yn bennaf i wasanaethu Llandaf a maestref dosbarth gweithiol Llandaff Yard (Ystum Taf heddiw). Yn ail, adeiladwyd Eglwys Plwyf y Santes Fair ar Merthyr Road yn 1885. Oherwydd bod Church Road wedi ei hadeiladu trwy diroedd yr eglwys, yr oedd modd adeiladu'r eglwys newydd yng nghanol y pentref. Yr oedd Church Road, a enwyd yn wreiddiol yn New Road, yn darparu cyswllt agosach nag o'r blaen rhwng canol y pentref a'r orsaf rheilffordd. Yn yr un modd, yr oedd yr orsaf yn galluogi'r dosbarth canol, a oedd ar gynnydd yn yr Eglwys Newydd, i deithio i Gaerdydd; ac yr oedd y tai newydd o faint ac arddull addas i'w anghenion a'u dyheadau hwy. Mae'r tai ar Church Road ac o'i hamgylch yn adlewyrchu'r twf yn llewyrch Caerdydd a'r pentrefi cyfagos, a oedd ar ei anterth yn union cyn dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.




## 2.3 Diddordeb Pensaernïol Arbennig yr Ardal

Tai Fictoraidd ac Edwardaidd a ddyluniwyd yn unigol a welir yn bennaf yn ardal Heol Don a Church Road, a'r rheiny'n dai pâr a thai ar wahân. Mae'r tai mawr Fictoraidd ar Heol Don, yn yr un pen a'r orsaf, wedi eu lleoli mewn gerddi helaeth, ac adeiladwyd amrywiaeth o dai mwy modern neu fflatiau yn llawer o'r gerddi hyn. Amgylchynir hwy gan waliau carreg a brics a choed aeddfed mawr, sy'n rhoi naws arbennig a nodweddiadol i'r rhan hon o'r Eglwys Newydd. Yr amrywiaeth addurniadol ar y tai a'r coed a llwyni toreithiog yn y gerddi blaen ac ochr yw prif atyniad y strydlun yma.



# Mapiau yn dangos datblygiad hanesyddol yr Eglwys Newydd


OS map 1880




OS map 1901




OS map 1920



# 3 asesiad o gymeriad yr ardal

## 3.1 Lle o Safon Nodedig

Lleolir yr ardal ar ochr y grib sy'n codi o ddyffryn yr afon Taf a'r rheilffordd sy'n mynd ar ei hyd. Maint y plotiau a'r tai a natur addurnedig yr arddull adeiladu sy'n creu naws yr ardal. Mae'r rhan fwyaf o dai'r ardal yn rhai ar wahân neu'n dai pâr, gyda'r tai ar wahân ar y ffyrdd mwyaf urddasol. Mae amrywiaeth yr addurniadau ar yr adeiladau a'r gerddi a'r tirweddu aeddfed sy'n fframio'r adeiladau yn gwahaniaethu'r ardal hon oddi wrth y rhai sydd o amgylch.



## 3. 2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirweddol

- Er gwaethaf nodweddion unigol y tai, mae eu maint a'u graddfa yn gyson, gan olygu mai ychydig o adeiladau tirnod sydd yn yr ardal. Yr adeilad tirnod mwyaf arwyddocaol yw Eglwys y Santes Fair a'i mynwent yn y gyffordd rhwng Church Road, Merthyr Road a Penlline Road. Adeiladwyd yr eglwys hon o arddull gothig yn 1882-4 gan bensaer esgobaeth Llandaf, John Prichard.



- Un tirnod amlwg yw'r wal garreg 2 fetr o uchder ar ochr ogleddol pen de-orllewinol Church Road. Mae'n rhedeg am 85 metr ar hyd Church Road cyn troi'r gornel i Heol Don. Gosodwyd drws ar ffurf arch gothig yn y wal.

- Mae gorsaf a llinell rheilffordd Llandaf, sy'n rhedeg yn gyfochrog â The Parade, yn nodedig. Bu'r orsaf unwaith yn rhan o Reilffordd Bro Taf, a gynlluniwyd gan Isambard Kingdom Brunel. Yr oedd yn cysylltu Cwm Rhondda â Doc Gorllewin Bute yng Nghaerdydd, gan alluogi allforio cyfoeth mwynau'r Cwm. Gosodir y llinell rheilffordd ar waelod arglawdd rheilffordd serth, gan ffurfio nodwedd tirweddol arwyddocaol. Oherwydd yr arglawdd hwn, nid oes presenoldeb gweledol arwyddocaol yn yr ardal gadwraeth arfaethedig. Yr eithriad yw'r hen swyddfa docynnau, a leolir ar hyd The Parade, 40 metr i'r gorllewin o'r gyffordd rhwng The Parade, Heol Don, a Station Road. Adeilad brics coch unllawr yw hwn, sydd uwchben yr arglawdd rheilffordd.



- Gwelir toeau llechi a simneiau'r tai rhes, a adeiladwyd yn wreiddiol i'r dosbarth gweithiol, i'r de o'r trac rheilffordd, islaw The Parade. Mae'r olygfa hon o'r toeau yn cael effaith arwyddocaol ar olwg yr ardal gadwraeth arfaethedig.

- Un nodwedd tirweddol arwyddocaol sy'n rhoi naws iraidd i'r ardal yw'r coed a gwrychoedd niferus a leolir yn union tu ôl i waliau terfyn blaen y tai. Mae llawer o'r rhain wedi eu diogelu gan Orchmynion Cadw Coed. Ychydig o goed sydd yn y strydoedd eu hunain, ac eithrio'r rhes o goed ar hyd y palmant yn The Parade, sy'n fframio'r golygfeydd i'r toeau isod.



## 3.3 Hierarchaeth Parthau Cyhoeddus a Phreifat

- Rhodfeydd â choed ar eu hyd sydd yn yr ardal, gyda'r waliau terfyn yn diffinio maint y plot a graddfa'r adeiladau. Church Road a Heol Don yw'r ffyrdd lletaf, gan adlewyrchu maint a statws y tai a wasanaethir ganddynt.

- Mae perthynas bwysig rhwng Eglwys y Santes Fair a'r eiddo i'r gorllewin, gan fod yr Eglwys wedi ei hadeiladu i wasanaethu'r boblogaeth a oedd yn tyfu yn sgîl gwerthu tiroedd eglwysig. Lleolir yr eglwys ar yr un llinell plot eiddo ac mae'r terfyn deheuol yn gyfochrog â'u waliau brics nodweddiadol hefyd. Tu hwnt i gaeau Ysgol yr Eglwys Newydd mae'r rhodfa o goed ffawydd yn darparu cefndir deniadol i'r ffordd.

- Mae'r gofod agored 'cyffredin' arall wedi'i leoli yn y gyffordd rhwng Church Road a Heol Don. Yma, mae'r ymyl glaswellt llydan yn nodi'r gyffordd hanesyddol ac yn darparu lleoliad deniadol ar gyfer y pâr o dai yn yr arddull celf a chrefft, sef 69 a 71 Church Road.

- Mae llwybr cudd i ardal Melingriffith i'r gorllewin o Rushbrook Close. Mae'n disgyn yn serth i ymuno â'r Tŷ Mawr hanesyddol rhestredig o'r 18fed ganrif, gan ddilyn llinell hanesyddol Camlas Morgannwg.

# 3.4 Deunyddiau Anghyffredin neu o Ansawdd Uchel yn y Treflun

- Mae amrywiaeth o ddeunyddiau adeiladu yn amlwg yn yr ardal gadwraeth arfaethedig. Mae'r briciau coch gwasgedig a ddefnyddir yn waliau'r anheddau, y simneiau ac yn y waliau a phileri terfyn o'r cyfnod Edwardaidd ymlaen yn allweddol i gymeriad yr ardal. Y deunyddiau nodweddiadol a ddefnyddir ar gyfer y copinau ar waliau a phileri terfyn yw mathau amrywiol o friciau coch wedi eu mowldio. Mae rhai o'r copinau ar waliau Heol Don wedi eu stampio gan y gweithgynhyrchwr yn Llantarnam, Casnewydd, Sir Fynwy.

- Mae gwaith rendro hefyd yn cyfrannu'n helaeth at gymeriad yr ardal, yn arbennig ar hyd The Parade. Kingsland Road a'r ffyrdd cysylltiol eraill lle gwelir llawer o rendro chwipiad garw.

- Mae tywodfaen pennant yn amlwg hefyd, ac yn nodweddiadol o ddatblygiadau o ddiwedd y cyfnod Fictoraidd, o gymharu â'r brics coch a rendro a welir mewn adeiladau diweddarach. Mae'n ymddangos o amgylch pen de-orllewinol Church Road mewn haenau o wyneb craig wedi ei naddu â morthwyl. Gwelir rwbel bras tywodfaen Pennant mewn rhai waliau terfyn yn yr ardal hon yn ogystal.





- Y cerrig eraill a ddefnyddir yn helaeth yn yr ardal yw llechen Gymreig ar y toeau a meini nadd o garreg Caerfaddon, sydd fel arfer wedi eu paentio bellach. Mae nifer o fathau eraill o garreg hefyd: daeth carreg Radur yn boblogaidd yn y 1880au a'r 1890au a gwelir hi yn waliau terfyn Eglwys y Santes Fair; yn ogystal, defnyddir carreg wyrdd-lwyd, a allai fod o Fforest y Ddena, ar gyfer copinau ar waliau terfyn rhai adeiladau.





- Mae teils, sydd weithiau â phatrwm tonnog, yn nodwedd amlwg a ddefnyddir i addurno waliau, talcenni ac i doi tyrau a chynteddau.





- Gwelir nodweddion haearn bwrw addurnol ar rai adeiladau, ar gynteddau a cheiliogod y gwynt er enghraifft. Byddai rheilins haearn wedi bod yn nodwedd ar lawer o'r waliau terfyn; fodd bynnag, dim ond ychydig o'r rhai gwreiddiol sydd wedi goroesi, gan fod y mwyafrif wedi eu tynnu yn ystod yr Ail Ryfel Byd.





- Gwelir coed yn y ffenestri, drysau a'u fframiau, yr estyll tywydd a'r bondoeau. Mae rhai o'r tai â chyntedd coed hefyd, neu fframiau pren addurnol ar dalcenni a waliau.





# 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

- Mae talcenni mawr yn amlwg ar y tai yn yr ardal, gydag estyll tywydd anaddurnedig a bondoeau llydan yn wynebu'r stryd. Mae'r talcenni wedi eu haddurno mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys fframiau pren addurnol ffug-Duduraidd, carreg Caerfaddon Art Nouveau, rendro garw a llyfn a gro chwipio; yr addurn mwyaf cyffredin fodd bynnag yw teils crog coch, sy'n aml yn creu patrwm tonnog mewn rhannau. Mae llawer o dai â therfyniadau terracotta ar ben y talcenni a theils coch addurnol yn rhedeg ar hyd crib y to. Mae rhai cwteri a phibelli dŵr o haearn bwrw wedi goroesi, er bod uPVC newydd wedi cymryd lle llawer ohonynt bellach.





- Mae eiddo yn yr ardal wedi ei leoli ymhell oddi wrth y ffordd, gan roi lle amlwg i erddi blaen, waliau a phileri terfyn yn y strydlun. Mae rhai waliau wedi eu hadeiladu â charreg i uchderau gwahanol, er bod mwyafrif y waliau yn isel ac wedi eu hadeiladu o frics coch gwasgedig. Nodwedd y waliau brics yw'r haenau gydag ymyl befel, sy'n creu newid dyfnder. Mae nifer o wahanol fathau o gopinau ar y waliau a physt. Briciau wedi eu mowldio i wahanol ffurfiau yw'r mwyafrif ohonynt, er y defnyddir carreg hefyd. Byddai llawer o waliau brics wedi bod â rheilins a giatiau o haearn bwrw unwaith, ond bellach mae llawer o'r rhain wedi eu colli.





- Mae'r ffenestri yn cymryd llawer o le ar y tai. Un o'r prif elfennau ar yr eiddo yn yr ardal yw'r ffenestri codi sy'n llithro i fyny, ac maent yn cyfrannu at y manylion mân ar ffasadau'r adeiladau. Mae llawer ohonynt â chyrn neu fachau addurnol. Mae rhai o'r ffenestri uwch â chwareli yn arddull y Frenhines Anne neu groeslathau Gothig trwm. Mae llawer o ffenestri yn aml mewn parau. Gwelir pennau a dresin o garreg Caerfaddon yn fynych. Defnyddir peth gwydr lliw ac addurniadol, ond ar y cyfan mae'r gwydr yn ddiaddurn.





- O dan y talcenni amlwg mae ffenestri bae dwbl, gyda dwy ffenestr godi yn y canol a ffenestri codi ar bob ochr, wedi'u rhannu â physt ffenestr o garreg Caerfaddon. Mae rhai o'r ffenestri bae wedi eu rhannu'n fwy byth o adrannau, yn arbennig ar gornel adeilad. Addurnir y ffenestri bae â theils plaen ac mewn patrwm tonnog, gwaith maen rwbel a chwipio garw, ond gwelir rhai diaddurn mewn brics coch gwasgedig yn ogystal.





- Mae nifer o dyrrau cornel ar ffurf polygon, gyda theils plaen a thonnog a cheiliogod y gwynt mewn haearn bwrw yn eu haddurno. Defnyddir haearn bwrw i ychwanegu diddordeb at lawer o gynteddau a ferandâu.





- Er bod llawer o fynedfeydd blaen yn wynebu'r stryd, mae llawer ar ochr y tai. Yn aml, mae cynteddau caeedig addurnol neu ganopïau agored. Mae'r rhain yn amrywio yn sylweddol yn eu harddull. Yn nodweddiadol, mae gwydr yn y panelau uwch, sydd wedi ei addurno yn achlysurol. Mae 'r manylion addurniadol ar y drysau yn cynnwys handlenni, cnoceri, clychau a blychau llythyrau sy'n bywiocáu'r mynedfeydd.





# 3.6 Tirweddu Caled a Meddal o Safon Uchel

- Mae coed aeddfed mawr yn nodweddiadol o'r ardal, gan gynnwys Ffawydd Copr, Cedrwydd, Pinwydd yr Alban, Yw, Bedw Arian, Derw, Ffawydd, Castanwydd, Helyg, dwy Goeden Gas gan Fwnci (un o flaen rhif 42 a'r llall yng ngardd tŷ rhif 10) a llawer o rywogaethau addurnol. Mae'r coed yw yn amlwg ger yr Eglwys. Mae Bedwen Arian hardd yng ngardd Rhif 4.

- Mae casgliad arbennig o goed ym mhen Heol Don o Church Road, ac o amgylch y tai Fictoraidd ger gorsaf Llandaf. Mae llawer o goed ar bob pen i ochr ogleddol Church Road. Ym mhen gorllewinol Church Road, mae datblygiad o dai o'r 1960au. Mae'r mynediad i'r datblygiad hwn ar Heol Don, gyda hen wal wreiddiol a nifer o goed aeddfed mawr, gan gynnwys Cedrwydd ysblennydd, yn ei sgrinio. Mae'r drws bwaog gwreiddiol i ardd rhif 44 Church Road yn nodwedd arbennig o'r wal hon.

- Wrth symud i'r dwyrain ar hyd Church Road, mae'r holl dai mewn gerddi â llwyni blodau a choed. Mae llawer o goed Magnolia gwych ar hyd Church Road. Ym mhen Merthyr Road o Church Road, mae coed o amgylch mynwent Eglwys y Santes Fair, tra bo glaswellt a llwyni yn cyfuno â'r cerfluniau Fictoraidd sy'n addurno'r beddi i greu calon werdd i bentref yr Eglwys Newydd.









# 4 fframwaith ar gyfer gweithredu

## 4.1 Y Cefndir

Mae'r gwerthusiad yn disgrifio nodweddion o gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth a'r ystod ar gyfer gwella. Ar ôl ei fabwysiadu, gellir ei ddefnyddio yn y ffyrdd canlynol:

- Diffinio cynllun gwella i arwain datblygiad yr ardal.
- Asesu ceisiadau cynllunio yn unol â pholisi 3 y Cynllun Lleol a 2.53 y Cynllun Datblygu Unedol, tan y mabwysiedir Cynllun Datblygu Lleol.
- Nodi'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli'r parthau cyhoeddus yn y dyfodol.
- Rhoi cyfarwyddyd i'r rhai sy'n byw yn yr ardal.

Dyma'r cyfleoedd a gyflwynir gan y gwerthusiad:

- Cynnal cymeriad arbennig aral Church Road.
- Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u hintegreiddio'n dda o fewn y gosodiad plotiau a'r adeiladau presennol.
- Pan fo potensial ar gyfer gwella'r parthau cyhoeddus, rhoi ystyriaeth ddyledus i gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth a'r gwelliannau a nodir yn y gwerthusiad.
- Gwella'r cysylltiadau â chanolfan siopa'r Eglwys Newydd.
- Cynyddu'r mwynhad o'r cymeriad arbennig, a sefydlu cysylltiadau â'r llwybrau a rhodfeydd hanesyddol sy'n arwain at Felingriffith a Fferm Fforest.
- Edrych ar y potensial ar gyfer adfer yr orsaf rheilffordd gan gynllun goleuo priodol i hwyluso mynediad a darllenadwyedd.
- Cynyddu'r ddealltwriaeth a'r gwerthfawrogiad o gymeriad arbennig yr ardal.
- Annog ac esbonio i'r trigolion pam fod atgyweirio cywir yn bwysig.

Y bygythion:

- Projectau ar raddfa eang i ddymchwel tai er budd datblygiadau mawr newydd.
- Pwysau parhaus i addasu ac estyn adeiladau a gerddi newydd.
- Pwysau parhaus am barcio ar y stryd, a'r amhariad traffig o ganlyniad.
- Pwysau i newid adeiladau a thai ar gyfer dibenion eraill, er enghraifft gwella effeithlonrwydd ynni, a diogelwch tai.
- Tagfeydd traffig parhaus a defnydd trwm ar ffyrdd preswyl yn ystod oriau brig.
- Colli cymeriad oherwydd y mynedfeydd o ochr ddeheuol Church Road i iardiau gwasanaeth eiddo ar Merthyr Road.

Mae'r adran olaf hon yn ceisio rhoi sylw i'r canfyddiadau hyn trwy gynigion i wella cymeriad yr Ardal Gadwraeth a'r nodweddion cadarnhaol a ddisgrifir yn yr adrannau blaenorol.

# 4.2 Gwella'r Ardal Gadwraeth

## Canllawiau

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella'r ardal gadwraeth yw sicrhau bod y rhai sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall ei chymeriad. Mae'r canllawiau a nodir yn yr adran derfynol yn rhoi cyngor am y modd y gellir diogelu adeiladau mewn cynigion ar gyfer datblygu. Mae hefyd yn rhoi cyngor i'r rhai sy'n ystyried gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

## Gwella

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun ar gyfer gwella ardal gadwraeth. Y ffordd orau o gyflawni'r gwelliant hwn yw trwy gydweithredu gyda'r meysydd gwasanaeth eraill o fewn y Cyngor neu weithio mewn partneriaeth â'r datblygwyr, y gymuned neu gyrff cyhoeddus eraill.

Mae'r Cyngor wedi nodi'r cyfleoedd canlynol ar gyfer dylanwadu ar, a bwrw ymlaen â, gwelliannau:

- Trwy gadarnhau'r cyfleoedd am ganllawiau a gwelliannau a nodir yn y gwerthusiad hwn ac yn Atodiad 1 a 2.
- Rheoli a chynnal a chadw ystâd y Cyngor, gan gynnwys eiddo, parciau a gerddi.
  Hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr ardal trwy gysylltiadau â'r gymuned, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol, gan gynnwys Parc Gwledig Fferm Fforest.
- Trwy gyllidebau presennol y Cyngor a rheolaeth effeithiol ar y parthau cyhoeddus:

## Diogelu

Mae'r ardal ddynodedig yn cynnwys llawer o dai Fictoraidd ac Edwardaidd o ansawdd uchel sydd wedi cadw'n dda, o fewn gerddi aeddfed a waliau terfyn. Erys llawer o fanylion gwreiddiol, megis ffenestri codi pren gyda rheiliau cau wedi'u siapio, a chynteddau haearn addurnedig, gan gyfrannu yn gadarnhaol at gymeriad arbennig yr ardal.

Os collir y nodweddion hyn, bydd cymeriad yr ardal yn lleihau. Mân yw'r newidiadau a wnaed hyd yma, gyda ffenestri uPVC yn lle 'r ffenestri codi pren a rhai enghreifftiau o driniaethau anghydnaws i'r terfynau o amgylch adeiladau.

I helpu i gyflawni hyn, cyflwynir Gorchymyn Erthygl 4(2) o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Golyga hyn y bydd yn rhaid ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith bach a bennwyd sy'n wynebu'r briffordd, ac a fyddai, o dan amgylchiadau arferol, yn cael ei ystyried yn ddatblygiad a ganiateir (h.y. datblygiad nad yw'n gofyn am ganiatâd cynllunio).

Gellir cynnwys y gwaith canlynol mewn Gorchymyn Erthygl 4(2):

- **Addasiadau i, a thynnu neu adnewyddu drysau**, **ffenestri a chynteddau** sy'n wynebu'r briffordd, i ddiogelu rhag gosod ffenestri a drysau, anghydnaws tynnu cynteddau neu addasu cynteddau.
- **Codi neu adeiladu cyntedd sy'n wynebu'r briffordd**, i ddiogelu rhag ychwanegiadau amhriodol i brif wynebau'r tai, a allai gael effaith sylweddol ar gymeriad yr eiddo unigol a'r ardal gyfan.
- **Codi, adeiladu, cynnal a chadw, gwella neu addasu giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu**, i sicrhau bod y triniaethau i'r terfynau o fewn yr ardal yn adlewyrchu ei chymeriad arbennig o ran graddfa, deunyddiau a manylion.
- **Dymchwel giât, ffens neu wal neu ddull arall o amgáu**, i ddiogelu'r olygfa stryd bresennol, ei rhythm a'i chymeriad.
- **Creu llecyn caled o fewn libart tŷ pan fo'n nes at y briffordd na'r annedd**, i ddiogelu rhag erydu cymeriad yr ardal, trwy golli gerddi blaen a thirweddu a chreu bylchau yn y waliau terfyn presennol hanesyddol i greu mynedfeydd cerbydau.
- **Ehangu, gwella ac addasu unrhyw do neu orchudd to neu simnai**, i amddiffyn graddfa, rhythm a chymeriad arbennig yr ardal.

Bydd Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) yn berthnasol i dai annedd sengl yn unig. Mae'r Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer mathau eraill o eiddo (gan gynnwys fflatiau, boed yn fflatiau a adeiladwyd yn bwrpasol neu dai wedi'u haddasu) yn gyfyngedig, ac nid ydynt yn cynnwys y gwaith a nodir uchod. Byddai caniatâd cynllunio'n ofynnol ar gyfer y gwaith a restrir uchod, boed Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) ai peidio.

# 5 argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r Gwerthusiad a'r camau y gellid eu cymryd o'i fabwysiadu.

Dylid cyhoeddi crynodeb o'r gwerthusiad a'r Canllawiau yn atodiad 1 a 2 a'i ddosbarthu i'r rhai sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth neu â diddordeb ynddi.

Dylid cadarnhau'r gwerthusiad a'i argymhellion a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, yn sail ar gyfer mentrau corfforaethol o fewn yr Ardal Gadwraeth.

Dylai'r gwerthusiad a'r asesiad cymeriad yn Rhan 3 fod yn fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio, yn unol ag Adran 72 o'r Ddeddf.

Ar ôl mabwysiadu'r ardal estynedig dylid cymryd camau i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) o fewn yr ardal, fel y nodir yng nghynllun 2.

Dylid gwella'r cysylltiadau â grwpiau a phreswylwyr lleol.

Dylid rhoi'r Gwerthusiad a'r wybodaeth am hanes yr ardal ar gael i'w astudio yn Llyfrgell yr Eglwys Newydd a'r ysgolion lleol.

Dylid cytuno ar gynllun atgyweirio a chynnal a chadw priodol i sicrhau bod gwaith yn y parth cyhoeddus yn ystyriol o gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Dylid hysbysebu'r dynodiad ardal gadwraeth yn unol â'r Ddeddf.

## 5.1 Ymgynghoriad

Mae'r ddogfen hon yn rhan o ymgynghoriad lleol ynglŷn â'r gwerthusiad o'r Ardal Gadwraeth a'r polisïau a chynigion y byddai'r Cyngor yn ceisio eu mabwysiadu er mwyn ei gwella a'i hamddiffyn. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gynigion eraill yr hoffech i'r Cyngor eu hystyried, neu os hoffech gyfrannu neu rannu gwybodaeth am hanes yr ardal, cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth ar 20873485, neu 20873481. Gwahoddir eich sylwadau cyn 5ed Mehefin 2006.

# Canllawiau drafft i'r rhai sy'n bwriadu gwneud gwaith datblygu o fewn Ardal Gadwraeth Church Road

**Paratowyd y canllawiau hyn ar gyfer y rhai sy'n bwriadu ymgymryd â gwaith atgyweirio neu addasu ar eu tŷ neu eiddo. Amcan y canllawiau yw parchu a gwella'r cymeriad a nodir yn y Gwerthusiad.**

## Deunyddiau a Manylion Adeiladu

Wrth ystyried gwaith adeiladu neu amnewid, dylid anelu i:

- Atgyweirio'r ffenestri a drysau gwreiddiol yn hytrach na'u hamnewid â rhai newydd
- Defnyddio manylion cydnaws ar estyniadau bach
- Adeiladu waliau mewn brics neu rendro cyffelyb
- Gosod llechi neu deils sy'n cydweddu ar y toeau

## Ffenestri a Drysau

Gosod ffenestri a drysau newydd yw un o'r problemau dylunio mwyaf dyrys. Mae'r cyngor canlynol yn berthnasol i ddrysau a ffenestri ar gyfer estyniadau yn ogystal â rhai newydd  a osodir mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes.

- Dylid cadw'r ffenestri gwreiddiol lle bynnag y bo modd;
- Dylid cadw paneli drws mewn gwydr barugog neu wydr lliw a manylion cynteddau;
- Dylai ffenestri newydd adlewyrchu arddull a dulliau agor y rhai a osodwyd ar yr eiddo yn wreiddiol.

Yn ymarferol, golyga hyn y dylech ystyried a oes angen gosod ffenest neu ddrws newydd. Hwyrach y bydd modd atgyweirio'r ffenestri; gall seiri coed medrus gyflawni atgyweiriadau heb unrhyw anhawster. Gall y Tîm Cadwraeth yn yr adran Cynllun Strategol gyflenwi enwau arbenigwyr sy'n cynhyrchu ffenestri pren. Gall roi cyngor am fanylion gwaith saer  hefyd.

**Mae rhagor o gynghorion am atgyweirio ffenestri a gosod rhai newydd yn y cyhoeddiad ar wahân, 'Window Repair and Replacement in Conservation Areas', sydd ar gael oddi wrth y Tîm Cadwraeth o fewn Cynllunio Strategol ac Adnewyddu Cymdogaeth.**

## Simneiau

Yn aml, mae simneiau yn bwysig i sicrhau cymesuredd pob grŵp neu res o adeiladau, gan dorri ar y gorwel a diffinio corneli stryd. Yn aml gellir canfod oedran adeilad a ffynhonnell y garreg a ddefnyddiwyd i'w adeiladu drwy edrych ar simneiau carreg ar dai cynnar. Yn aml bydd cyrn a photiau simneiau tywod gwreiddiol yn rhan annatod o'r dyluniad mewn tai Fictoraidd hwyr ac Edwardaidd. Os bydd simnai sy'n cyfrannu at gymeriad y tŷ neu'r Ardal Gadwraeth yn anniogel, a bod angen ei hatgyweirio, dylid ei hailadeiladu i'r un uchder ac yn unol â'r dyluniad gwreiddiol, hyd yn oed os nad yw'n cael ei defnyddio bellach.

Gall Caniatâd Cynllunio fod yn ofynnol i ddymchwel simnai. Pan na fydd simneiau yn cael eu defnyddio mwyach, mae'n bwysig gweithredu i gynnal a chadw'r gwaith cerrig neu frics a mortar a'r gwaith rendro. Dylid cadw'r potiau clai gwreiddiol os ydynt yn dal yn gadarn yn eu lle. Gellir cael gard i amddiffyn y simnai rhag tywydd drwg, a fydd hefyd yn ei hawyru fel na fydd brest y simnai yn tampio.

# Ffenestri Dormer a Gwaith Trawsnewid Croglofftydd

Mae ffenestri dormer ac addurniadau ar waith maen a chrib y to yn nodwedd gyffredin o'r cyfnod Fictoraidd ac Edwardaidd, a dyma pryd y datblygwyd y rhan fwyaf o'r Ardal Gadwraeth. Bydd ffenestri dormer newydd yn briodol yn unig os ydynt yn parchu maint y tŷ, yn diogelu cymeriad siâp presennol y to, ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

Gallai ffenestri to bach traddodiadol fod yn dderbyniol mewn lleoliad llai amlwg, gan gynnig dewis opsiwn arall yn lle ffenestri dormer. Gyda thai pâr, yn arbennig os ydynt yn gymesur, bydd yn rhaid gofalu nad yw'r ffenestr to yn achosi anghydbwysedd rhwng y ddau dŷ. Nid yw ffenestri to modern mewn fframiau trwchus sy'n torri ar wastadedd wyneb y to yn dderbyniol.

Ni fyddwn yn cefnogi'r defnydd o ffenestri to ar lethr blaen y to.

# Deunyddiau'r To

Fel rheol, dylid cadw deunyddiau'r to gwreiddiol. Llechi wedi'u hadfer neu lechi naturiol newydd neu deils clai yw'r deunyddiau gorau i ddiogelu cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Dylid cadw estyll tywydd a theils addurnol ar grib y to.

# Estyniadau ac Addasiadau

Wrth foderneiddio eu cartrefi, bydd preswylwyr am gael ceginau ac ystafelloedd mwy i'r teulu, a mwy o le yn eu tai. Yn aml gellir gwneud hyn heb ddifetha cymeriad y tŷ ei hun na'r Ardal Gadwraeth ehangach. Fodd bynnag, fe allai estyniad, ffenestri dormer neu waith trawsnewid croglofft sy'n addas ar gyfer un tŷ fod yn hollol amhriodol ar gyfer tŷ arall, ac felly mae'n amhosibl pennu un set o reolau ar gyfer yr holl Ardal Gadwraeth.
Serch hynny, ceir rhai canllawiau yn y nodiadau a ganlyn.

Gan fod llinell adeiladu gref i lawer o ffyrdd yn yr Ardal Gadwraeth, mae'n annhebygol y bydd estyniadau ar flaen adeiladau'n diogelu cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Yn yr un modd, fe all estyniadau ar ochr adeiladau gau'r bwlch rhwng y naill eiddo a'r llall, gan greu rhes barhaus o dai sy'n dinistrio natur agored y cynllun a'r golygfeydd a gynlluniwyd yn ofalus rhwng yr adeiladau.

Dylid ystyried y pwyntiau a ganlyn wrth gynllunio estyniad:

1. A fydd yr addasiadau neu'r estyniadau'n goredrych dros eiddo cyfagos?

Argymhellir yn gryf eich bod yn trafod eich cynigion gyda'ch cymdogion agosaf mor fuan ag y bo modd. Ni ddylid gwneud gwaith datblygu os yw ffenestri newydd mewn ystafelloedd byw yn achosi llawer mwy o oredrych, neu os bydd yr adeilad yn gormesu dros eiddo cyfagos.

2. A fydd yr estyniadau i'w gweld o'r ffordd neu o unrhyw barth cyhoeddus arall, ac yn arbennig, a fyddant yn ennill ar y tir sydd rhwng adeiladau, gan guddio golygfeydd pell?

Fel arfer, dylai unrhyw waith estyn ddigwydd ar gefn yr eiddo. Mae estyniadau a fyddai'n ymyrryd ar unrhyw olygfeydd sydd wedi'u hen sefydlu, er enghraifft estyniadau deulawr, neu estyniadau dros garejys presennol, yn annhebygol o ddiogelu cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

3. A fydd yr estyniad yn cyfateb â chymeriad yr ardal/y tŷ?

Er mwyn i estyniad fod yn dderbyniol mewn egwyddor, rhaid iddo gael ei ddylunio i gyd-fynd â ffurf a chymeriad gwreiddiol y tŷ.

4. A oes unrhyw waith addasu ansensitif eisoes wedi'i gyflawni?

Addaswyd rhai o'r tai cyn i'r rheolaethau presennol ddod i rym. Nid yw hen waith addasu ansensitif, a wnaed o bosib heb ganiatâd, yn cyfiawnhau cyflawni mwy o waith amhriodol. Rhoddir pob anogaeth i dynnu neu wella hen waith amhriodol yn rhan o unrhyw gynllun newydd.

Er mwyn dylunio estyniadau'n llwyddiannus, mae angen cael gwybodaeth am natur yr adeilad ac ymdrin yn ofalus â maint a manylion y cynllun.
Er y gall swyddogion gynnig cyngor anffurfiol, fe'ch cynghorir i gyflogi pensaer a chanddo wybodaeth a phrofiad yn y math hwn o waith. Bydd darluniadau'r pensaer ynghyd â gwybodaeth glir, gryno a manwl gywir fel arfer yn sail gadarn i benderfynu ynglŷn â chais.

# Datblygiadau Newydd

Amcan yr egwyddorion a ganlyn yw cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Lleol a sicrhau bod cymeriad neilltuol yr ardal yn cael ei ddiogelu a'i wella mewn ceisiadau ar gyfer datblygu. Dylid eu darllen ar y cyd â'r meini prawf a'r asesiad o gymeriad yr ardal yn Adran 3.

Dylai adeiladau newydd fod yn gydnaws â chyd-destun trefol yr ardal, pryd bynnag y bo modd, gan gydweddu ag ymddangosiad presennol yr ardal, ac mae'n bwysig bod y deunyddiau'n debyg o ran ymddangosiad neu'n gydnaws â'r rhai a ddisgrifir yn y gwerthusiad. Dylid sicrhau hefyd bod deunyddiau, manylion a gorffeniadau newydd oll o ansawdd uchel. O fewn y meini prawf hyn, dylai datblygiadau newydd geisio cyflawni datrysiadau dylunio creadigol, boed yn gyfoes neu'n draddodiadol. Gellir mynegi'r cymeriad a chyd-destun a ddisgrifir yn y gwerthusiad hwn trwy'r canlynol:

- Defnyddio llinell adeiladu, maint plotiau ac israniadau cyffredin.
- Cryfhau a chynnal y rhythmau adeiladu fertigol a llorweddol presennol.
- Uchderau adeiladau, toeau a llinellau cornis cyfochrog.
- Parchu'r golygfeydd arwyddocaol i mewn ac allan o'r ardal gadwraeth ac ar hyd ei phrif ffyrdd.
- Defnyddio deunyddiau adeiladu lleol.
- Cadw a chryfhau'r waliau terfyn presennol.

Er ei bod yn bwysig osgoi cyfeiriadau symbolaidd neu ddi-sail at yr arddull pensaernïol lleol, gellir amddiffyn neu wella cymeriad yr ardal leol trwy adlewyrchu'r crefftwaith lleol yn y gwaith coed, gwaith maen, gwaith haearn neu'r gwydr lliw, er enghraifft.

Mae'r fframwaith polisi ar gyfer y cyfarwyddyd hwn yn cael ei gefnogi gan y Cynllun Lleol a'r Cynllun Datblygu Unedol a gyflwynwyd, hyd nes y mabwysiedir y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r polisi'n datgan yn glir y bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu barnu ar sail eu heffaith ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Bydd y canllawiau'n cyflenwi polisïau'r Cynlluniau ac yn cael eu cefnogi gan y Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig mewn perthynas â dyluniad.

## Cyngor ynghylch Tirwedd a Choed

**Mae'r cyfarwyddyd yma'n ymwneud â materion tirweddu, gan gynnwys coed, parcio, gerddi, cloddiau, ffensys a giatiau. Bydd llecynnau agored, ymylon a gerddi preifat oll yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae gan yr Awdurdod Cynllunio bwerau arbennig yng nghyswllt y materion hyn sy'n berthnasol i lefydd o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn unig. Isod, ceir amlinelliad o'r ystyriaethau sy'n berthnasol os ydych yn bwriadu cyflawni gwaith sy'n cynnwys y nodweddion a ganlyn.**

## Coed

Mae coed mewn Ardaloedd Cadwraeth wedi'u diogelu dan drefniant arbennig. Rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i gyflawni gwaith ar goed sydd â diamedr o 7.5 centimetr (tua 3 modfedd) neu fwy, ac sy'n uwch na 1.5 metr (tua 5 troedfedd) o'r ddaear.
Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi 6 wythnos o rybudd i'r Awdurdod Cynllunio ynglŷn â'ch bwriad i gyflawni'r gwaith. Bydd yr Awdurdod yn caniatáu gwaith y mae'n ei ystyried sydd yn llesol i'r coed, ac o bosib yn caniatáu unrhyw waith arall lle bo'r manteision i'r coed yn llawer mwy na'r difrod a achosir. Os nad yw'r cyngor yn caniatáu'r gwaith, efallai y bydd yr Awdurdod yn cyflwyno Gorchymyn Cadw Coed i atal y gwaith rhag cael ei gyflawni. Os na fydd yr Awdurdod yn ymateb cyn pen y chwe wythnos, gellir cyflawni'r gwaith beth bynnag. Fe all y llys orfodi cosb ddifrifol am beidio â rhoi rhybudd o'r math yma – yr un cosbau â phe bai'r coed wedi'u diogelu gan Orchymyn Cadw Coed.

Mae gwaith yn golygu tynnu neu ladd coeden, ond hefyd gwaith tocio neu ddifrodi gwreiddiau neu ganghennau, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. O ganlyniad, dylid gwneud cais ymlaen llaw os ydych, er enghraifft, y bwriadu newid lefel y pridd wrth ymyl coed, neu osod wyneb anhydraidd fel tramwyfa newydd. Byddai difrodi coed drwy lygru eu hamgylchedd hefyd yn drosedd, er enghraifft drwy wasgaru chwynladdwr planhigion llydan-ddeiliog ar lawnt gyfagos. Ceir amryw o eithriadau i'r angen am ganiatâd, yn arbennig ar gyfer coed sydd wedi marw, sydd yn marw neu'n beryglus. Heblaw pan fo perygl cyfagos, fe'ch cynghorir i ffonio Swyddog Cadw Coed cyn gweithredu unrhyw un o'r eithriadau hyn. Fel arfer bydd angen plannu coeden newydd yn lle coed sy'n cael eu tynnu'n anghyfreithlon neu eu tynnu o dan eithriad. Os yw'r gwaith yr ydych am ei gyflawni'n ymwneud â datblygiad y mae arnoch angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer, fe ddylech ei gynnwys yn y cais cynllunio. Wedi hynny, ni fydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân o dan y rheoliadau sy'n diogelu coed - bydd y cyfan yn cael ei drafod ar yr un pryd.

Os oes gennych goeden fawr neu amlwg, fe'ch cynghorir yn gryf i ofyn am gyngor meddyg coed o dro i dro ynglŷn â'r dulliau o'i rheoli yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw dyledus i farn meddyg coed cymwys wrth ystyried ceisiadau. Gwasanaethau Parciau'r Cyngor sy'n rheoli'r coed sydd ar briffyrdd neu mewn parciau, a byddant yn cael eu rheoli dan gynllun tymor hir, o dan oruchwyliaeth arbenigwr coed.

## Parcio mewn Gerddi Blaen

Datblygwyd y rhan fwyaf o adeiladau'r ardal cyn i gymaint o bobl fod yn berchen ar gar. Gall adeiladu man parcio ychwanegol oddi ar y ffordd ar libart tai unigol olygu colli gerddi a chloddiau.

Os oes lle i gael garej, dylid cynllunio hwnnw i gyfateb â'r tŷ cysylltiedig heb ddirywio'r ardal yn gyffredinol.

## Gerddi

Mae gerddi â lawntiau neu sy'n cynnwys planhigion a chloddiau yn ychwanegu at atyniad yr Ardal Gadwraeth. Gan fod angen cadw'r cymeriad yma, gellir gwrthod caniatâd i adeiladu llecyn caled yn yr ardd o flaen tŷ. Bydd pob achos yn cael ei ystyried ar sail teilyngdod. Ni ddylai llecyn caled fod yn lle i barcio ceir yn union o flaen y tŷ. Ar ochr llawer o'r ffyrdd ceir llain o laswellt sy'n cyfrannu at gymeriad glas yr ardal. Dylid amddiffyn y rhain. Bydd creu iard balmantog o flaen y tŷ gyda man troi fel arfer yn golygu lleihau llecynnau glas, gwelyau blodau a llinell y gwrychoedd, ac yn aml yn golygu colli gardd neu lwybr.

## Giatiau a Therfynau

Ffurfiwyd ymylon gerddi a llwybrau troed mewn amryw o ffyrdd. Wrth atgyweirio ac adfer terfynau neu wrychoedd, mae'n bwysig eich bod yn plannu rhywogaethau sy'n cyfateb â chymeriad yr ardal. Gall Swyddogion Cadw Coed eich cynghori ynglŷn â pha rywogaethau sy'n addas yn eich gardd chi. Wrth i wrychoedd dyfu, gallwch ddefnyddio pyst a weiar neu ffens rwyllog i ddiogelu eich gardd.

## Waliau Carreg a Waliau Brics, Terfynau a Rheilins

Dylid ystyried waliau terfyn yn estyniad i'r adeilad y maent yn eu hamddiffyn. Maent yn diffinio ac yn ychwanegu cymeriad at y strydlun. Fe ddylai unrhyw waliau newydd gyflawni'r un amcanion.

Defnyddir nifer o ddeunyddiau adeiladu gwahanol yn yr ardal gadwraeth, a cherrig amrywiol hefyd. Pan fo'r garreg neu'r brics naturiol wedi eu cadw, dylid eu hatgyweirio a'u cynnal a chadw i sicrhau bod gwaith maen neu frics, uniadau a chopinau oll yn cydweddu â'r strwythur gwreiddiol.

# Ffynonellau a Llyfrau Cyfeiriol


- Old Whitchurch. Edgar Chappell
- Whitchurch: A Brief History. Hilary Thomas
- An Illustrated History of Cardiff Suburbs. Dennis Morgan
- Cyfeirlyfrau Western Mail Caerdydd o1899 i 1910
- Cardiff: A History of the City. William Rees
- The Buildings of Wales: Glamorgan Newman J. Penguin 1995
- The Edwardian House. Helen Long. Manchester University Press 1993
- The Victorian House. Kit Wedd/The Victorian Society. Aurum 2002

- Gellir cael manylion adeiladau rhestredig, coed a ddiogelir ar hyn o bryd gan y Gorchmynion Cadw Coed, a'r dogfennau polisi cynllunio y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon, gan y Tîm Cadwraeth.

## Diolchiadau


- Swyddfa Cofnodion Morgannwg.
- Cadw: Henebion ac Adeiladau Hanesyddol Cymru.
- Grŵp Gweithredu Treftadaeth yr Eglwys Newydd.
- Y Gymdeithas Fictoraidd


## Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:


*Y Tîm Cadwraeth*
*Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd*
*Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,*
*Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,*
*Caerdydd. CF10 4UW.*
*Ffôn: (029) 2087 3485*

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:

Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,
Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3485